

## Feirws Schmallenberg

Diweddarwyd: Mehefin 2013

### Cyflwyniad

Mae feirws Schmallenberg yn afiechyd da byw a ddaeth i'r amlwg gyntaf yn yr Almaen ym mis Tachwedd 2011 o samplau a gasglwyd yn ystod yr haf/hydref hwnnw.<sup>1</sup> Cadarnhawyd yr achosion cyntaf yn nwyrain a de Lloegr ym mis Ionawr 2012.

Gwelwyd y symptomau mewn gwartheg yn gyntaf, gyda gwartheg llawndwf yn dangos ychydig o arwyddion o afiechyd cymedrol. Fodd bynnag, fisoedd ar ôl i'r symptomau cyntaf hyn ddod i'r amlwg, nododd ffermydd ar draws Ewrop eu bod wedi sylwi ar ddiffygion difrifol mewn defaid, geifr a gwartheg newydd eu geni, gan gynnwys erthyladau, marw-enedigaethau a chamffurfiadau.

Oherwydd ei berthynas agos â feirwsau eraill a drosglwyddir gan arthropodau,<sup>2</sup> mae tybiaeth gref mai prif gyfrwng trosglwyddo'r afiechyd yw pryfed sy'n sugno gwaed. Nodwyd bod gwybed mân *Culicoides* sy'n brathu, o'r Grŵp *Obsoletus*, yn greaduriaid sy'n rhoi lloches i'r feirws. Mae'r grŵp hwn i'w gael ledled Gogledd Ewrop, gan gynnwys y DU.<sup>3</sup>

<sup>1</sup>OIE, *Taflen wybodaeth dechnegol: Schmallenberg Virus*, Mai 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>2</sup>Grŵp o feirwsau sydd â phryfyn lletyol canolradd. Fel arfer, caiff y feirws ei drosglwyddo i anifeiliaid ym mhoyer y pryfyn.

<sup>3</sup>Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Update No.6 on Schmallenberg Virus in Northern Europe*, 11 Mawrth 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

## Dosbarthiad daearyddol

Cofnodwyd achosion o'r feirws Schmallenberg yn y mwyafrif o wledydd Ewrop<sup>4</sup>, gan gynnwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon drwyddynt draw. Nodwyd bod yr afiechyd mewn anifeiliaid ar fwy na 6,000 o ffermydd,<sup>5</sup> gyda ffermydd gwartheg yn ddiodesdef yn waeth na ffermydd defaid.

Erbyn 31 Mawrth 2013, roedd y feirws Schmallenberg wedi dod i'r amlwg mewn 1753 o ffermydd yn y DU:<sup>6</sup> 1257 mewn gwartheg, a 492 mewn defaid. Cafwyd y cadarnhad cyntaf bod y Feirws Schmallenberg wedi'i ddarganfod **yng Nghymru ar 24 Medi 2012**, lle roedd yn effeithio ar dair buwch ac un llo ar fferm yng **Ngheredigion**.<sup>7</sup> Mae'r feirws i'w gael ym mhob sir yng Nghymru a Lloegr erbyn hyn.<sup>8</sup>

Darganfuwyd y feirws Schmallenberg mewn sawl rhywogaeth, gan gynnwys gwartheg, defaid, geifr, ceffylau, alpacas, ceirw gwyllt ac ych gwyllt.<sup>9</sup> Mae gwrthgyrff penodol y feirws hefyd wedi'u darganfod mewn baeddod gwyllt,<sup>10</sup> mewn danas, ewigod, ceirw cochion a mwffloniaid.<sup>11</sup>

<sup>4</sup> Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, *'Schmallenberg' virus: analysis of the epidemiological data*, Mai 2013, [fel ar 31 Mai 2013]

<sup>5</sup> Flu Trackers, *Schmallenberg virus – Map and Chart*, 28 Medi 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>6</sup> Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig - Asiantaeth Labordai Milfeddygol Iechyd Anifeiliaid, *Schmallenberg virus – updated testing results*, 24 Ebrill 2013 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, *Feirws Schmallenberg*, 26 Medi 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>8</sup> Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig - Asiantaeth Labordai Milfeddygol Iechyd Anifeiliaid, *Schmallenberg virus – updated testing results*, 24 Ebrill 2013 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>9</sup> Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, *'Schmallenberg' virus: analysis of the epidemiological data*, Mai 2013, [fel ar 31 Mai 2013]

<sup>10</sup> Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, *Intermediate technical report of the EU scientific studies on Schmallenberg virus*, Ebrill 2013 [fel ar 31 Mai 2013]

<sup>11</sup> Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, *'Schmallenberg' virus: analysis of the epidemiological data*, Mai 2013, [fel ar 31 Mai 2013]

## Symptomau a phatholeg

Nid yw'r Feirws Schmallerberg yn afiechyd hysbysadwy<sup>12</sup> yn y DU, ond gofynnir i ffermwyr gysylltu â'u milfeddyg, a fydd yn cysylltu â'r Swyddfa Iechyd Anifeiliaid yn lleol, os dynt yn amau bod y feirws ar eu fferm.<sup>13</sup>

Ni wnaeth y mwyafrif o ffermwyr nodi eu bod wedi sylwi ar unrhyw arwyddion clinigol mewn defaid a geifr llawndwf, er bod sôn i rai ohonynt gofio gweld symptomau.<sup>14</sup> Gall haint llym mewn gwartheg llawndwf arwain at ddangosyddion amrywiol sy'n cynnwys un neu fwy o'r symptomau a ganlyn:

- Dolur rhydd;
- Twymyn;
- Llai o awydd bwyd;
- Cynhyrchu llai o laeth; ac
- Anhwylder cyffredinol.<sup>15</sup>

Bydd anifeiliaid llawndwf fel arfer yn cael adferiad llawn a chyflym dros nifer o ddyddiau.

Ar ddiwedd mis Tachwedd 2011, cofnodwyd yr achosion cyntaf o gamffurfiad cynhenid mewn ŵyn newydd eu geni oedd yn fyw neu'n farw, yn yr Iseldiroedd.<sup>16</sup> Ers hynny, nodwyd camffurfiadau cynhenid mewn ŵyn, geifr a lloi newydd eu geni yng Ngwlad Belg, Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Lwcsembwrg,

<sup>12</sup> Caiff afiechyd hysbysadwy ei enwi yn adran 88 o *Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981* neu Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf. Rhaid i unrhyw un sy'n amau ei fod yn gweld arwyddion o unrhyw afiechyd hysbysadwy hysbysu swyddfa'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol Iechyd Anifeiliaid yn lleol.

<sup>13</sup> Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Schmallenberg virus*, 26 Gorffennaf 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>14</sup> Awdurdod Safonau Bwyd Ewrop (2012) *"Schmallenberg" virus: Analysis of the epidemiological data and impact assessment*, Cyfnodolyn 10 Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (6) [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>15</sup> Adran Amaethyddiaeth Unol Daleithiau America *Schmallenberg Virus: Diffiniad o achos a chyfarwyddyd*, 22 Mawrth 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>16</sup> Van den Brom, R. et al., (2012) *Epizootic of ovine congenital malformations associated with Schmallenberg virus infection*, *Tijdschr Diergeneeskde*, 137 (2), 106-111 [fel ar 30 Mai 2013]

Sbaen, yr Iseldiroedd a'r Deyrnas Unedig hefyd.<sup>17</sup> Mae'r camffurfiadau y sylwyd arnynt hyd yma yn cynnwys:

- Aelodau'r corff yn camu a chymalau'n cloi;
- Gwddf a/neu gefn wedi camu;
- Y penglog yn ymddangos yn fwy crwn;
- Gê'n isaf fer; a
- Niwed i'r ymennydd a'r cefn.

Ni wyddom beth yn union yw cyfradd y camffurfiadau ar hyn o bryd, ac mae'n amrywio, yn dibynnu ar ba gam yn ystod y beichiogrwydd y cafodd yr anifail ei heintio.<sup>18</sup>

Mae asesiad risg a wnaethpwyd ar gyfer Ewrop gyfan wedi dod i'r casgliad bod feirws Schmallerberg yn annhebygol o achosi salwch mewn pobl; hyd yma, nid oes dim achosion wedi'u nodi mewn pobl, a dim ond salwch mewn anifeiliaid y mae'r feirwsau sy'n perthyn agosaf ato, yn ei achosi.<sup>19</sup> Serch hynny, mae argymhelliad y dylai ffermwyr a milfeddygon ystyried rhagofalon glendid synhwyrol pan fyddant yn trin da byw a deunydd sy'n gysylltiedig ag erthyly, sydd wedi'i heintio.<sup>20</sup>

<sup>17</sup> OIE, *Feirws Schmallerberg: Taflen wybodaeth dechnegol OIE ar y Feirws Schmallerberg*, Mai 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>18</sup> Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd *Taflen wybodaeth dechnegol OIE - Schmallenberg virus*, Mai 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>19</sup> European Centre for Disease Prevention and Control, *New Orthobunyavirus isolated from infected cattle and small livestock-potential implications for human health*, Mai 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>20</sup> Yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol, *Schmallenberg virus*, 5 Mawrth 2012 [fel ar 3 Mehefin 2013]

## Trosglwyddo

Mae feirws Schmallenberg yn perthyn i grŵp o feirwsau a elwir yn feirwsau orthobunya, a welir gan amlaf yn Asia, Affrica ac Awstralia; trosglwyddir hwy fel arfer gan fogsitos a / neu wybed *Culicoides* sy'n brathu. O ganlyniad, tybir y caiff feirws ei drosglwyddo gan fathau tebyg o bryfed sy'n bwydo ar waed.

Mae astudiaethau diweddar<sup>21</sup> wedi cadarnhau presenoldeb DNA y feirws Schmallenberg yn y gwybed mân sy'n brathu, *Culicoides*. Ar hyn o bryd mae tri rhywogaeth o'r Grŵp Obsoletus, sy'n dangos tebygolrwydd cryf eu bod yn gyfrifol am drosglwyddo'r feirws Schmallenberg.<sup>22</sup> Fodd bynnag, nid oes sicrwydd hyd yma ai'r rhain yw'r unig gludydd, na hyd yn oed a ydynt yn brif gludydd yr afiechyd. Mae astudiaethau ar waith i benderfynu a yw mosgitos hefyd yn cyfrannu at drosglwyddo'r feirws.<sup>23</sup>

Ar hyn o bryd, nid oes dim tystiolaeth bod unrhyw gyfrwng arall yn trosglwyddo'r feirws, ar wahân i drosglwyddo drwy'r brych<sup>24</sup> neu drwy bryfed sy'n brathu.<sup>25</sup>

<sup>21</sup> Rasmussen, L.D. et al., (2012) *Culicoides as Vectors of Schmallenberg Virus*, Emerging Infectious Diseases, 18 (7), 1204-1206 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>22</sup> Regge et al., (2012) *Detection of Schmallenberg virus in different Culicoides spp. by real-time RT-PCR*, Transboundary and Emerging Diseases, 59(6), 471-475 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>23</sup> BBSRC: Pirbright Institute, *IAH Welcomes NFU to discuss Schmallenberg virus*, 21 Mawrth 2012 [fel ar 3 Mehefin 2013]

<sup>24</sup> Y feirws yn trosglwyddo drwy'r brych, sy'n achosi iddo drosglwyddo o'r fam i'r ffetws.

<sup>25</sup> Awdurdod Safonau Bwyd Ewrop (2012) *"Schmallenberg" virus: Analysis of the epidemiological data and Impact assessment*, Cyfnodolyn 10 Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (6) [fel ar 30 Mai 2013]

## Effaith

Casglwyd tystiolaeth sy'n dangos mai effaith cymharol fach y mae feirws Schmallenberg wedi'i chael ar gynhyrchu da byw (oddeutu 5,500 o achosion mewn anifeiliaid sy'n cnoi cil, newydd eu geni, yng ngogledd Ewrop hyd at fis Gorffennaf 2012, sy'n llai na 0.005 y cant o'r anifeiliaid a allai gael yr afiechyd).<sup>26</sup> Er y gall gael effaith fawr ar fferm yn economaidd,<sup>27</sup> ar gyfer y mwyafrif o fuchesi sydd wedi'u heintio, mae lefel yr abnormaledd ar enedigaeth yn isel. Pan fydd cyfradd yr achosion a nodwyd yn uwch (hyd at 40 y cant), credir bod hyn o ganlyniad i arferion rheoli fel cysoni.<sup>28,29</sup> Mae Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop wedi nodi lleihad yn nifer yr anifeiliaid newydd eu geni a oedd wedi'u camffurfio am eu bod yn SBV-bositif ers mis Chwefror 2012,<sup>30</sup> a nodwyd bod llai o fuchesi newydd eu heintio wedi dod i'r amlwg yn ystod gwanwyn 2013 na gwanwyn 2012.<sup>31</sup>

<sup>26</sup> Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Update No. 10 on Schmallenberg Virus in Northern Europe* [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>27</sup> Beer et al., (2013) *'Schmallenberg virus' – a novel orthobunyavirus emerging in Europe*, Epidemiology and Infection, 141, 1-8 [fel ar 31 Mai 2013]

<sup>28</sup> Mae cysoni yn sicrhau bod yr holl famogiaid a gaiff eu cadw ar yr amser paru neu ffrwythlonni artiffisial (AI) oll o fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd ar yr un cyfnod yn eu beichiogrwydd

<sup>29</sup> Taflen wybodaeth yr NFU, *Schmallenberg virus leaflet*, Mawrth 2013 [fel ar 31 Mai 2013]

<sup>30</sup> Awdurdod Safonau Bwyd Ewrop (2012) *"Schmallenberg" virus: Analysis of the epidemiological data and Impact assessment*, Cyfnodolyn 10 Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (6) [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>31</sup> Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, *'Schmallenberg' virus: analysis of the epidemiological data*, Mai 2013, [fel ar 31 Mai 2013]

## Imiwnedd, brechlyn i'w atal a rheolaeth

### Imiwnedd

Mae'r gallu i ddatblygu imiwnedd sy'n para'n hir yn rhywbeth y sylwyd arno yn y gorffennol mewn anifeiliaid a heintiwyd â feirws Akabane (AV), sef feirws orthobunya sy'n perthyn yn agos i feirws Schmallenberg.<sup>32</sup> Mae anifeiliaid beichiog, a heintiwyd dro ar ôl tro â feirws Akabane yn meddu ar ddigon o imiwnedd i atal trosglwyddiad y feirws i'r ffetws sy'n datblygu. Fel arfer, felly, sylwir ar effeithiau Pathogenig y feirws Akabane dim ond pan fydd y feirws yn trosglwyddo o'i barth endemig, gan heintio anifeiliaid unigol nad oes ganddynt imiwnedd.<sup>33</sup>

Ni wyddom ar hyn o bryd a yw'r gyfatebiaeth rhwng feirws Schmallenberg a feirws Akabane yn gwbl briodol. Dengys rhai astudiaethau rhagbrofol, fodd bynnag, na fydd anifeiliaid a gaiff eu heintio eilwaith â feirws Schmallenberg ar ôl bod yn agored i'r feirws yn y gorffennol, yn datblygu rhagor o heintiau feirol.<sup>34</sup>

### Brechlyn i'w atal

Ym mis Mai 2013 cyhoeddodd y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol ei bod yn trwyddedu MSD Animal Health i werthu brechlyn yn erbyn y feirws Schmallenberg ('bovoli SBV') a fyddai ar gael yn ystod yr haf 2013.<sup>35</sup> I gael imiwnedd llawn, mae ar wartheg angen dau ddôs, ac ar ddefaid angen un dôs o'r brechlyn. Argymhellir bod y cwrs yn cael ei orffen o leiaf dair wythnos cyn paru.<sup>36</sup>

<sup>32</sup> Awdurdod Safonau Bwyd Ewrop (2012) "*Schmallenberg*" virus: *likely epidemiological scenarios and data needs*, Chwefror 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>33</sup> *ibid*

<sup>34</sup> Awdurdod Safonau Bwyd Ewrop (2012) "*Schmallenberg*" virus: *Analysis of the epidemiological data and impact assessment*, Cyfnodolyn 10 Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (6) [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>35</sup> Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol, *Schmallenberg vaccine ready for use this summer*, Mai 2013, [fel ar 31 Mai 2013]

<sup>36</sup> Farmers Guardian, *Your questions answered on the new Schmallenberg vaccine*, 30 Mai 2013 [fel ar 31 Mai 2013]

### Rheolaeth

Nes y caiff y brechlyn ei drwyddedu, cyhoeddodd yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol Iechyd Anifeiliaid y rhestr a ganlyn o gamau y dylid eu cymryd i leihau i'r eithaf risgiau'r feirws Schmallenberg:

- Gohirio paru nes bod llai o wybed mân;
- Gohirio magu o wŷn benyw nes 2013;
- Defnyddio cynnyrch sy'n cadw pryfed ymaith neu'n rheoli pryfed sy'n brathu, cyn troi'r gwryw at y fenyw, ac ar ddechrau beichiogrwydd;
- Cadw mamogiaid o dan do;
- Cael gwared ar domenni tail er mwyn cael gwared ar gynefinoedd magu.<sup>37</sup>

<sup>37</sup> Farmers Weekly, *Candidate Vaccine announced for Schmallenberg*, 2 Gorffennaf 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

## Diagnosis

Gellir defnyddio samplau gwaed o anifeiliaid byw y bydd amheuaeth bod ganddynt y feirws Schmallenberg, i ddarganfod y feirws. Hefyd gellir defnyddio samplau o ymennydd neu goden y bustl o ffetwsau marw neu ffetwsau a erthylwyd y bydd amheuaeth bod y feirws ganddynt.

Mae profion a all ganfod presenoldeb y feirws Schmallenberg yn uniongyrchol mewn sampl gwaed yn dibynnu ar brofi am bresenoldeb DNA feirol. Er mwyn darganfod y DNA feirol mewn anifail llawndwf byw, fodd bynnag, rhaid casglu'r sampl o'r anifail yn ystod cyfnod clinigol yr haint (sy'n para am ychydig ddyddiau'n unig fel arfer), sy'n cyfyngu ar ba mor ddefnyddiol yw'r prawf, i'r cyfnod penodol hwn.<sup>38</sup>

Bu datblygu prawf a all ddarganfod gwrthgyrff penodol feirws Schmallenberg, sy'n aros yn y gwaed ar ôl i'r feirws ei hun ddiflannu, yn flaenoriaeth felly. Mae pecyn profi gwrthgyrff ELISA<sup>39</sup> anuniongyrchol wedi'i ddilysu gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol, ac mae ar gael yn fasnachol i'w ddefnyddio mewn gwartheg, defaid a geifr,<sup>40</sup> gyda chyfnod o saith diwrnod nes y bydd y canlyniadau ar gael. Datblygwyd prawf tebyg i ddarganfod presenoldeb gwrthgyrff mewn samplau o laeth.<sup>41</sup> Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn annog ffermwyr yn y DU i nodi symptomau feirws Schmallenberg wrth eu milfeddygon preifat. Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordy Milfeddygol wedi talu'n flaenorol am brofion y feirws Schmallenberg mewn lloi neu ŵyn camffurfiedig mewn ardaloedd lle nad yw'r afiechyd wedi'i nodi hyd yma.<sup>42</sup> Daeth y prawf i ben yn awr bod y

<sup>38</sup> Elbers R.W. et al., (2012) *Seroprevalence of Schmallenberg Virus Antibodies among Dairy Cattle, the Netherlands, Winter 2011-2012*, Emerging Infectious Diseases, 18 (7) [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>39</sup> Enzyme-linked immunosorbent assay – techneg brofi sy'n defnyddio ensymau i ddarganfod presenoldeb gwrthgyrff mewn cysylltiad ag antigen penodol.

<sup>40</sup> Yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol, *Schmallenberg virus*, 5 Mawrth 2012 [fel ar 3 Mehefin 2013]

<sup>41</sup> Humphries, D. and Burr, P., (2012) *Schmallenberg virus milk antibody ELISA*, The Veterinary Record, 171(20), 511-512

<sup>42</sup> Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig *Update No.10 on Schmallenberg-2 Virus in Northern Europe*, 25 Gorffennaf 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

feirws Schmallenberg wedi'i ddarganfod ym mhob sir yng Nghymru a Lloegr.<sup>43</sup>

## Cyfyngiadau ar fewnforio

Ers iddynt gael achosion o feirws Schmallenberg, mae nifer o wledydd wedi gosod cyfyngiadau mewnforio ar nwyddau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid sy'n pori, gan gynnwys anifeiliaid pori byw, cig, semen ac embryonau. Mae gwledydd sydd â chyfyngiadau mewnforio ar gynnwyrch yr UE oherwydd y feirws Schmallenberg yn cynnwys Rwsia, yr Aifft, Moroco, yr Unol Daleithiau, Uruguay a Brasil.<sup>44</sup>

Yng ngoleuni dadansoddiad o'r wybodaeth wyddonol sydd ar gael, daeth y Comisiwn Ewropeaidd i'r casgliad mai risg bach a achosir gan nwyddau fel cig, llaeth, semen, ac embryonau.<sup>45</sup> Felly, mae'r Undeb Ewropeaidd wedi annog gwledydd sydd wedi mabwysiadu camau cyfyngu ar fewnforio, i'w dileu, gan nad oes cyfiawnder gwyddonol na chymesur o ganlyniad i'r risg bach a achosir gan y nwyddau hyn.<sup>46</sup>

## Tarddiad ac achosion yn y dyfodol

Mae feirws Schmallenberg yn perthyn i is-grŵp o'r feirwsau orthobunya a elwir y grŵp sero Simbu. Nid yw feirwsau Simbu erioed wedi'u cofnodi yn Ewrop o'r blaen. Ni wyddom sut y cyrhaeddodd feirws Schmallenberg Ewrop, er bod feirolegwyr yn dyfalu bod pryfed a heintiwyd wedi'u mewnforio ar awyrennau, gydag anifeiliaid a heintiwyd, neu ar flodau wedi'u torri, o Affrica.<sup>47</sup>

<sup>43</sup> Asiantaeth Labordai Milfeddygol Iechyd Anifeiliaid, *Schmallenberg virus – updated testing results*, 14 Rhagfyr 2012, [fel ar 31 Mai 2013]

<sup>44</sup> Y Comisiwn Ewropeaidd *List of third countries that impose import restrictions to EU products concerning Schmallenberg virus (SBV)* 10 Mai 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>45</sup> Sefydliad Masnach y Byd *Restrictions to Trade Adopted in Relation to the Occurrence of the Schmallenberg Virus in the European Union*, 2 Gorffennaf 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>46</sup> *ibid*

<sup>47</sup> Kupferschmidt K *Scientists Rush to Find Clues on New Animal Virus*, Science: Newyddion a Dadansoddiad – Infectious Disease, 2 Mawrth 2012 [fel ar 30 Mai 2013]



Dengys heintiau'r feirws Schmallerberg parhaus ers 2011 y gall y feirws fyw dros y gaeaf,<sup>48</sup> a gwnaeth hynny rhwng 2011 a 2012<sup>49</sup> a rhwng 2012 a 2013. Mae'r feirws yn debygol o ledaenu mewn rhanbarthau na effeithiwyd arnynt gan y feirws hyd yma, neu'r rhanbarthau lle y bu'r haint yn brin yn y gorffennol.<sup>50</sup> Bydd nifer yr achosion o haint y feirws Schmallerberg a ddaw i'r amlwg yn y dyfodol yn dibynnu ar faint o ffermydd a fydd yn defnyddio'r brechlyn newydd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad polisi ynghylch feirws Schmallerberg hyd yma. Mewn datganiad ysgrifenedig, dywedodd John Griffiths AC, cyn Weinidog yr Amgylchedd a Datblygiad Cynaliadwy: 'Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio'n agos â'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol Iechyd Anifeiliaid, rhanddeiliaid a gweinyddiaethau eraill i fonitro'r clefyd a rhoi gwybodaeth a chynghor cyson fel y daw ar gael.'<sup>51</sup>

<sup>48</sup> Awdurdod Safonau Bwyd Ewrop (2012) "*Schmallerberg*" virus: *Analysis of the epidemiological data and Impact assessment*, Cyfnodolyn 10 Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (6) [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>49</sup> Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Update No. 10 on Schmallerberg Virus in Northern Europe*, 25 Gorffennaf 2012 [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>50</sup> Awdurdod Safonau Bwyd Ewrop (2012) "*Schmallerberg*" virus: *Analysis of the epidemiological data and Impact assessment*, Cyfnodolyn 10 Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (6) [fel ar 30 Mai 2013]

<sup>51</sup> Llywodraeth Cymru, John Griffiths, *Y Wybodaeth ddiweddaraf am Feirws Schmallerberg*, Datganiad ysgrifenedig, 17 Ionawr 2013 [fel ar 3 Mehefin 2013]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Feirws Schmallerberg**, cysylltwch â **Nia Seaton** ([Nia.Seaton@cymru.gov.uk](mailto:Nia.Seaton@cymru.gov.uk)), y Gwasanaeth Ymchwil.

### Gweler hefyd:

- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig  
**Schmallerberg Virus Update Reports**

Gallwch weld **ein holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: [cynulliadcymru.org/cy/bus-home/research.htm](http://cynulliadcymru.org/cy/bus-home/research.htm)

Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn e-bost at [Research.Service@cymru.gov.uk](mailto:Research.Service@cymru.gov.uk)

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn â'r Aelodau a'u staff, ond ni allant gynghori'r cyhoedd.

Rhif yr ymholiad: 13/1409